

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- a gynhaliwyd ar nos Iau, 6ed o Ragfyr, 2018 yn Ffestri Pencaenewydd am 6:30 y.h.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Davies; Tegid Jones, Sion Aled Jones; a'r Clerc.

### 1. Ymddiheuriadau.

Roedd pawb yn bresennol.

Fe drefnwyd i gynnal y pwyllgor Cynllun Busnes o flaen y prif bwyllgor, ar 6ed o Ragfyr, 2018, oherwydd nad oedd digon yn bresennol yn yr un gwreiddiol a oedd wedi cael ei drefnu ar y 18fed Hydref.

### 2. Ar y rhaglen.

Cyllideb 2018/19 a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Cafwyd adroddiad manwl o'r union wariant hyd yma (roedd taflenni wedi cael eu rhannu yn ystod y cyfarfod) a chymharwyd gyda'r gyllideb a bennwyd.

Rhodddwyd amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2019.

Ymhlith y prosiectau y bydd angen talu amdanynt, yw'r bwriad o gael 2 fainc, un ar y llwybr rhwng Llanystumdwy a Lodge Ynysgain, a'r llall yn Chwilog. Mae'r prisiau yn amrywio, a bydd angen talu am wneud sylfaen bwrpasol a'i gwneud yn saff.

Bydd angen talu am lenwi'r 5 bocsi halen sydd o fewn y gymuned, y pris tua £60.00 - £80.00 yr un, felly mae'n anodd gwybod faint o aml fydd angen gwneud hyn yn ystod y gaeaf.

Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Llanystumdwy.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd. Mae'r Clerc wedi anfon llythyr at y Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Rhagfyr 2018, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned, roedd y cyfanswm gwariant am eleni yn £974.00

### 3. Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2019-2020:-

- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern - heb gael pris eto.
- Tir y Cyngor Rhydybenllig - dim wedi ei wneud ers tro.
- Wifi y 3 neuadd bob blwyddyn.
- Llwybr Pont y Merchaid i Ffynnon Cybi - y Clerc wedi gwneud ymholiadau (fis Rhagfyr 2018) hefo'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd, ynglyn â'r llwybrau Pont Merchaid a Garn Pentyrch. Bydd ar y rhaglen i'w drafod fis Chwefror. Yng nghofnodion Pwyllgor Busnes 05.10.17, dywedwyd fod

Cyngor Gwynedd am wneud y gwaith, “mae heb ei wneud ac argymhellaid y Pwyllgor” ar y pryd “yw trefnu i’r gwaith gael ei wneud a thalu amdano”.

- Tocio caled ar y llwybrau – heb ei wneud eleni.
- Argymell ystyried cael arwyddion pren i arafu traffig i’r pentrefi ar y ffiniau, Chwilog yn enwedig- angen gwneud ymholiadau.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – tua £250.00 llynedd.
- Posiblwydd o gael diffribiweiddiwr yn Rhoslan.

4. Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol, fferm solar Tyddyn Gwyn, Llangybi.  
Penderfynwyd argymell rhannu’r arian rhwng mudiadau lleol, rhoi gwybod am yr arian yn Y Ffynnon ac ar safle we’r Cyngor, cael mantolen a gwybod beth fyddai’r mudiadau lleol yn wneud gyda’r arian.

Ar sail hyn argymhelliad y Pwyllgor Cynllun Busnes i’r Cyngor ydi y dylid pennu Praesept 2019-2020 yn £15,000- fel ag y mae ers sawl blwyddyn bellach i allu rhoi’r gyllideb ar waith.